# DATGANIAD YSGRIFENEDIG

Teitl: Rhaglen Diwygio'r Cynulliad: cyhoeddi adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

Dyddiad: 12 Rhagfyr 2017

Gan: Elin Jones AC, y Llywydd, fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad

Mae *Deddf Cymru 2017* wedi datganoli cyfrifoldebau newydd pwysig i'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys pwerau deddfwriaethol i benderfynu ar y ffordd orau o gynrychioli pobl Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Ymhlith y cyfrifoldebau hyn roedd pwerau dros enw a maint y Cynulliad, yn ogystal â'i drefniadau etholiadol a mewnol. Fel y cyhoeddais ym mis Tachwedd 2016, mae Comisiwn y Cynulliad yn arwain y gwaith i archwilio sut y gellir arfer y pwerau newydd hyn er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn senedd gryfach, mwy hygyrch, cynhwysol a blaengar sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Yn dilyn cytundeb unfrydol y Cynulliad a chyfnod o ymgynghori cyhoeddus, ym mis Mehefin 2017 cyhoeddais fod Comisiwn y Cynulliad wedi penderfynu cyflwyno deddfwriaeth i newid enw'r sefydliad i Senedd Cymru.

Ar ei ben ei hun, mae'r newid hwn yn ceisio sicrhau gwell dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o waith y Cynulliad, yn ogystal ag annog mwy o ymgysylltiad rhwng y sefydliad a'r bobl a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Fodd bynnag, drwy gynnwys diwygiadau ehangach, gallai unrhyw ddeddfwriaeth Diwygio'r Cynulliad hefyd fod yn gyfle i:

- sicrhau bod gan y sefydliad y capasiti sydd ei angen arno i wasanaethu'r bobl a'r cymunedau y mae'n eu cynrychioli;
- grymuso ein democratiaeth, ac ennyn diddordeb pobl ifanc;
- sicrhau bod trefniadau etholiadol a mewnol eraill y Cynulliad, er eu bod yn gadarn, hefyd yn darparu'r hyblygrwydd sy'n briodol ar gyfer deddfwrfa aeddfed.

Yn sgil archwilio'r cyfleoedd ehangach hyn, cyhoeddais ym mis Mehefin y byddai cwmpas deddfwriaeth diwygio'r Cynulliad yn cael ei ystyried unwaith y byddai'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad wedi adrodd a bod y consensws gwleidyddol yn gliriach.

Rwy'n falch o roi gwybod i'r Aelodau bod y Panel Arbenigol, heddiw, wedi cyhoeddi ei adroddiad: Senedd sy'n gweithio i Gymru.

O dan gyfarwyddyd strategol ei gadeirydd, yr Athro Laura McAllister, mae'r Panel wedi adolygu ac ychwanegu at y dystiolaeth a'r ymchwil sydd eisoes yn bodoli, ac wedi gwneud argymhellion ynghylch nifer yr Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad; sut y dylid ethol Aelodau; a beth ddylai'r oedran pleidleisio isaf fod ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.

Rwy'n ddiolchgar i'r Athro McAllister ac aelodau'r Panel Arbenigol am eu dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth, wedi'i lywio gan gyfoeth o arbenigedd ym meysydd systemau etholiadol, capasiti a gwaith seneddol, sefyllfa gyfansoddiadol y Cynulliad Cenedlaethol, a materion ehangach o ran llywodraethu, gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth ac ymgysylltu.

Mae adroddiad y Panel yn gwneud achos cryf dros ddiwygio maint y Cynulliad mewn pryd ar gyfer etholiad 2021, os yw'r sefydliad hwn am gyflawni ei swyddogaethau craffu a chynrychioliadol ar ran pobl Cymru yn y cyfnod gwleidyddol, economaidd a chyfansoddiadol heriol hwn.

Gwn nad oes modd gwahanu materion cyfansoddiadol sylfaenol o'r natur hon oddi wrth wirioneddau gwleidyddol y sefyllfa o ran democratiaeth gynrychiadol yng Nghymru. Er mwyn cyflawni newid, mae angen inni adeiladu consensws gwleidyddol eang yn y sefydliad hwn a'r tu allan. I'r perwyl hwn, rwyf wedi bod yn cydweithio'n agos â'r holl bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad ac rwy'n ddiolchgar iddynt oll am ymgysylltu mor gadarnhaol ac adeiladol. Mae'r Grŵp Cyfeirio Gwleidyddol, yr wyf yn ei gadeirio, wedi bod yn gweithredu fel cyfrwng cyfathrebu i'r Panel Arbenigol. Bydd ei rôl gynghori yn parhau ond rhaid i'r cam nesaf o ddiwygio hefyd gynnwys ymgysylltiad llawer ehangach, gyda holl Aelodau'r Cynulliad, gyda chymdeithas ddinesig a gwleidyddol ac, yn anad dim, gyda phobl Cymru. I'r perwyl hwnnw, rwyf i a'r Comisiwn wedi cytuno y byddwn yn ymgynghori'n eang yn gynnar yn 2018 ar sut y dylid bwrw ymlaen ag argymhellion y Panel a'r rhaglen ddiwygio ehangach.